**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 6 Hydref, 2016 am 10.00**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Sir P. Jones (Cadeirydd)
Cynghorydd Sir P. Farley (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Sir: L. Guppy, D. Blakebrough, M. Hickman, D. Jones, M. Powell.

**Aelodau ychwanegwyd**

**Aelodau'n pleidleisio ar faterion addysg yn unig:**

M Fowler (Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr).

Cynghorydd Sir V. Smith (arsylwi).

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Sharon Randall-Smith | Head of Achievement and Attainment |
| Tracey Thomas | Youth & Community Manager, Youth Service |
| Nikki Wellington | Finance Manager |
| Tyrone Stokes | Accountant |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Sir P. Clarke, R. Harris ac K Plow (Association of School Governors)

1. **Datganiadau o Fuddiant.**

Datganodd y Cynghorydd P.S. Farley ddiddordeb personol nad oedd yn rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau parthed unrhyw fater yn cyfeirio at Ysgol Cas-gwent ac Ysgol Gynradd The Dell, gan ei fod yn llywodraethwr y ddwy ysgol.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cafodd cofnodion Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc dyddiedig 7 Gorffennaf 2016 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd gyda'r newidiadau dilynol:

- Roedd y Cynghorydd Sir M Hickman wedi cofrestru ei ymddiheuriadau am y cyfarfod ond nid yw hyn yn y cofnodion.

- Cofnod 4.1, Casgliad Pwyllgor - Newid y frawddeg gyntaf fel sy'n dilyn:

- Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am ddod â'r adroddiad i'r Pwyllgor a gwerthfawrogai fod hyn yn ddechrau taith hir.

- Cofnod 4.2, Casgliad y Pwyllgor - Newid yr ail frawddeg fel sy'n dilyn:

- Roedd hefyd yn cynyddu'r angen i ddatblygu gweithlu hyderus a chymwys, a gefnogir yn llawn gan y Pwyllgor.

• Cofnod 4.3, Is-bennawd Craffu Aelodau:

- Paragraff cyntaf: Dileu 'ffisiolegydd' a rhoi 'seicolegydd'.

- Chweched paragraff: Dileu 'Mountain' a rhoi 'Mounton'.

**3. Monitro Refeniw a Chyfalaf 2016/17 Datganiad Darogan Alldro Cyfnod 1.**

**Cyd-destun:**

Rhoi gwybodaeth ar ragolwg sefyllfa alldro refeniw'r Awdurdod ar ddiwedd cyfnod 1 sy'n cynrychioli gwybodaeth ariannol mis 2 blwyddyn ariannol 2016/17.

**Argymhellion a gynigir i'r Cabinet:**

(i) Bod y Cabinet yn nodi maint y rhagolwg o orwariant refeniw yng nghyfnod 1 o £1.37 miliwn.

(ii) Bod y Cabinet yn gofyn i Brif Swyddogion roi gwybodaeth ar sut y deuir â'r sefyllfa gorwariant yn ôl o fewn y gyllideb, yn cynnwys cynlluniau amgen i sicrhau'r £301,000 o arbedion gorfodol yr adroddwyd na fedrid eu cyflawni yn yr adroddiad monitro nesaf.

(iii) Bod y Cabinet yn gofyn i Gyfarwyddwyr adolygu lefelau gorwariant a thanwariant ac ailddyrannu cyllidebau i ostwng maint sefyllfaoedd gwneud iawn sydd angen eu hadrodd cyn adroddiadau mis 6.

(iv) Bod y Cabinet yn gwerthfawrogi maint y defnydd a ragwelir o gronfeydd cadw ysgolion a'r disgwyliad y bydd 13 ysgol mewn sefyllfa diffyg erbyn diwedd 2016-17.

(v) Bod y Cabinet yn ystyried y monitro cyfalaf sydd ond yn dangos amrywiad bach i'r gyllideb fel canlyniad i gymeradwyaeth ddiweddar y Cabinet a'r Cyngor ar Dŷ Caerwent.

(vi) Bod y Cabinet yn cydnabod y risg sy'n gysylltiedig gyda gorfod dibynnu ar ddefnyddio derbyniadau cyfalaf yn y flwyddyn a ragwelir a'r potensial i hyn gael pwysau sylweddol ar refeniw os oes oedi gyda derbyniadau ac y gall fod angen benthyca dros dro.

**Craffu aelodau:**

- Mewn ymateb i faterion a godwyd yng nghyswllt cyllideb ddiffyg 13 o ysgolion Sir Fynwy, nodwyd bod gan 6 o'r 13 ysgol gyllideb ddiffyg o lai na £20,000. Ystyriwyd y

dylid cyflwyno adroddiad ar wahân i gyfarfod o'r Pwyllgor Dethol yn y dyfodol yn amlinellu'r ysgolion â chyllideb ddiffyg a manylion eu cynlluniau adferiad.

- Mae angen cynyddu'r gyllideb Diogelu Plant a Plant sy'n Derbyn Gofal gan ei bod yn tueddu i fod mewn diffyg parhaus oherwydd natur amrywiol a chyfnewidiol y gwasanaeth. Fodd bynnag, nodwyd fod y gwasanaeth yn dal i gael ei ddarparu'n effeithiol er bod y gyllideb wedi gostwng y gwasanaeth. Bu'r cynllun comisiynu yn ei le ers mis Gorffennaf 206 ac mae angen amser i ymsefydlu. Bydd gennym maes o law well dealltwriaeth o'r cyllid sydd ei angen ar gyfer y gwasanaeth.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol am gyllidebau ysgolion a'u cynlluniau adfer, nodwyd fod gweithio partneriaeth rhwng adrannau yn opsiwn ar gyfer dynodi cyllid. Sefydlir cynllun adferiad tair blynedd ar gyfer ysgol gyda chyllideb ddiffyg. Edrychir ar ostwng staff asiantaeth. Hefyd, mae cynllun gwella llys yn ei le ar gyfer dynodi ffyrdd o weithio'n fwy effeithiol gyda llysoedd a dynodi ffyrdd o ostwng costau cyfreithiol.

- Nodwyd fod rhai athrawon cyflenwi ar y gyflogres a'n bod yn annog ysgolion i ddefnyddio'r cyflenwr a ffafrir gan yr Awdurdod.

- Gofynnwyd i'r Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid os bu effaith niweidiol ar y Gwasanaeth Ieuenctid oherwydd bod staff wedi ymwneud â gwaith cynhyrchu incwm y gofynnodd yr Awdurdod amdano. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid y cafodd y baich ariannol ei godi am y flwyddyn ariannol hon. Mae'r gwasanaeth mewn cynllun adfer ac mae hyn i lawr erbyn hyn i ddiffyg o £130,000 gyda chwtogi da yn cael ei wneud ar y diffyg. Ni fu unrhyw effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth a gwneir gwaith yng nghyswllt y Model Darpariaeth Amgen.

- Byddai'r Rheolwr Cyllid yn anfon e-bost at Aelodau'r Pwyllgor Dethol gyda gwybodaeth am falansau ysgolion fel yr amlinellir yn atodiad A yr adroddiad.

**<u>Casgliad y Pwyllgor</u>**

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb fel sy'n dilyn:

- Mae'r adroddiad yn gyfnewidiol a gallai newid ymhellach.
- Codwyd meysydd o gonsyrn.
- Derbyn adroddiad ar sefyllfa pob ysgol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Dethol yn y dyfodol.
- Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet i danlinellu diffyg cyllid yng nghyswllt y gyllideb Diogelu Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 6 Hydref, 2016 am 10.00**

- Bydd y Pwyllgor Dethol yn derbyn adborth ffurfiol gan gynrychiolydd yr Awdurdod o gyfarfod nesaf Fforwm Cyllideb ysgolion. Bydd Nick Ramsay AC a Steve Davies (EAS) yn bresennol yng nghyfarfod y Fforwm.

- Disgwyl ymateb cyn ystyried cyflwyno deiseb i Lywodraeth Cymru.

4. **Adroddiad Blynyddol Cynnig Ieuenctid Integredig Sir Fynwy.**

**Cyd-destun:**

Derbyniwyd yr Adroddiad Blynyddol ar gynnydd a'r hyn a gyflawnodd grŵp Cynnig Integredig i Ieuenctid Sir Fynwy.

**Materion Allweddol:**

- Cadwyd monitro a chraffu chwarterol ar raglenni gwaith is-grŵp gan sicrhau y caiff dangosyddion perfformiad y Cynllun Integredig Sengl eu cyflawni.

- Mae gan y Cynnig Integredig i Ieuenctid strwythurau llywodraethiant ac adrodd clir drwy Fwrdd Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

- Mae gan y Cynnig Integredig i Ieuenctid brotocolau ar ddiogelu ac mae ganddo gronfa ddata o holl aelodau'r grŵp ar gyfer cliriad gan y DBS, hyfforddiant a pholisïau a weithredir, ac mae'n gyfredol ac yn ddilys.

- Aelodaeth o'r Cynnig Integredig i Ieuenctid wedi ei gynnal a thyfu i ysgogi momentwm. Mae cynrychiolaeth dda o bob partner ar y grŵp llawn a'r is-grwpiau sy'n galluogi rhannu'r gwaith a gweithredu gweledigaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a blaenoriaethau'r Cynllun Integredig Sengl.

- Mae gwaith parhaus y grŵp Cynnig Integredig i Ieuenctid wedi arwain at ostwng dyblygu a gwella darpariaeth gwasanaethau gyda ffocws i bobl ifanc.

- Parhau i ddatblygu 'prosiectau cymunedol' mewn ardaloedd lle mae prosiectau arbenigol wedi'u targedu yn cefnogi pobl ifanc, yn arbennig ar faterion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gweithgaredd troseddol a bwlio.

- Parhau i gyfrannu tuag at gynnydd cyrhaeddiad a phresenoldeb rhai yng Nghyfnodau Allweddol 3, 4 a 5 ar draws Sir Fynwy a pharhau i ddarparu gwasanaethau sy'n gostwng y ffigurau heb fod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth - sy'n 1.7% ar hyn o bryd.

- Gyda'i gilydd, mae'r holl wasanaethau cefnogaeth ieuenctid, fel rhan o'r Cynnig Integredig i Ieuenctid, wedi gweithio gyda 6907 o bobl ifanc unigol rhwng 11-25 oed yn 2015/16 (39.9% o'r boblogaeth 11-25).

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 6 Hydref, 2016 am 10.00**

- Mae'r Cynnig wedi casglu gwybodaeth gan bartneriaid i'w bwydo i'r Cynllun Integredig Sengl i roi tystiolaeth glir ar y canlyniadau a gyflawnwyd.

- Mae'r Prif Swyddog a hefyd yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc yn mynychu ac yn derbyn gwybodaeth bob chwarter ar waith y Cynnig Integredig i Ieuenctid.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid yr wybodaeth ddilynol i'r Pwyllgor Dethol parthed deilliannau cadarnhaol y Gwasanaeth Ieuenctid dros y flwyddyn flaenorol:

- Parhau i ddatblygu a chydweithredu i sicrhau y cedwir y gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc

- Cynyddu prosiectau cymunedol drwy weithio partneriaeth.

- Cynnal digwyddiad ymwybyddiaeth diogelwch ffordd yn yr haf yn y Fenni gyda nifer dda o'r cyhoedd a chyrff gwasanaethau cyhoeddus yn bresennol.

- Cynnal digwyddiad gwirfoddoli aml-asiantaeth yng Nghanolfan Hamdden Cas-gwent yn Ebrill 2016 gyda 31 o sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Fel canlyniad, mynegodd 97 o wirfoddolwyr ddiddordeb mewn gweithio gyda phobl ifanc.

- Parhau i ddarparu gwasanaethau arbenigol i'r bobl ifanc fwyaf bregus yn Sir Fynwy.

- Mae'r rhaglen Dyfodol Cadarnhaol yn gynllun ar y cyd rhwng Gwasanaethau Hamdden, Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid a'r Gwasanaeth Ieuenctid. Cyflwynwyd hyn yn y pedair ysgol gyfun ac Ysgol Tŷ Mounton dros y 12 mis blaenorol. Daeth y rhaglen hon i ben erbyn hyn. Mae'r prosiect ar gael ar gyfer ysgolion os dymunant hynny ond bydd yn rhaid iddynt dalu am y rhaglen. Sicrhawyd cyllid arall i ddarparu'r gwasanaeth mewn ysgolion cynradd, yn arbennig yn gweithio gyda myfyrwyr blwyddyn 6 gyda golwg ar eu helpu yn ystod y cyfnod pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.

- Ymgysylltu gyda phobl ifanc yng nghyswllt addysg a hyfforddiant.

- Lleisiau Ifanc - mae'n bwysig y caiff pobl ifanc eu clywed.

- Cydweithio gyda gwasanaethau iechyd meddwl i roi gwybodaeth i bobl ifanc ar ble i fynd i gael help.

- Mae un o aelodau'r Cyngor Ieuenctid o Sir Fynwy bellach yn llysgennad ar raglen Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Llywodraeth Cymru a chafodd y dasg o weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau fod pobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses.

- Llwyddo i gadw lefel dda o ymgysylltiad gyda phobl ifanc.

- Wedi cael craffu a her cyson ar yr is-grwpiau drwy'r Cynnig Integredig i Ieuenctid a Grŵp Rheoli Perfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 6 Hydref, 2016 am 10.00**

- Tair o'r prif flaenoriaethau yr edrychir arnynt dros y 12 mis nesaf yw:

  - Mapio cyllid y Gwasanaeth Ieuenctid ar draws Sir Fynwy.

  - Yr archwiliad diogel gan y Tîm Diogelu sy'n debygol o gael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2016.
  - Gwerthuso'r gwaith a wneir, gan flaenoriaethu ardaloedd ar gyfer y flwyddyn nesaf fel y medrant eu halio i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Craffu aelodau:**

Nodwyd y pwyntiau dilynol:

- Nid oes unrhyw dystiolaeth sylweddol yn yr adroddiad. Yn y dyfodol, byddai'n fanteisiol i'r Pwyllgor Dethol pe gallai adroddiadau gynnwys mwy o ddata.

- Mae Atodiad 1 yr adroddiad yn cyfeirio at gysylltiadau unigol ar gyfer pob maes gwasanaeth fel rhan o'r Cynnig Integredig i Ieuenctid. Mae Heddlu Gwent wedi gwneud 1000+ cyswllt gyda phobl ifanc. Nodwyd fod y ffigur yma'n cyfeirio at swyddogion cydlynu ysgolion Heddlu Gwent a'r tîm plismona cymdogaeth. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio'n agos iawn gyda'r timau hyn. Felly, mae'r 1000+ yn cyfeirio at y gwaith cadarnhaol gyda phobl ifanc.

- Ystyriwyd fod angen i waith Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy fod ar gael yn rhwyddach yn yr adroddiad. Nodwyd fod nifer o gynghorau tref a chymuned yn Sir Fynwy a fyddai'n hoffi buddsoddi'n ariannol yn y Gwasanaeth Ieuenctid gan y gwyddant fod gwasanaethau mewn risg oherwydd y dirywiad yn y cyllid grant sydd ar gael. Hefyd, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r adroddiad ddynodi unrhyw bwyntiau pwysau sylweddol a brofir gan y Gwasanaeth Ieuenctid.

  Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid nad oedd y Cynnig Integredig yn ei le i roi'r wybodaeth a geisiwyd gan fod Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy yn un o 32 asiantaeth lle cynhelid gwaith partneriaeth. Fodd bynnag, gellid cyflwyno adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Ieuenctid i gyfarfod yn y dyfodol o'r Pwyllgor Dethol a fyddai'n rhoi manylion y gwaith a wneir yn benodol gan Wasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy.

- Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid yr wybodaeth ddilynol:

  **Cysylltiadau**

  Mae gwahaniaeth rhwng person unigol a chyswllt. Mae cyswllt unrhyw beth yn ymwneud â thair awr a mwy gyda pherson ifanc. Y cysylltiadau a ddynodwyd yn yr adroddiad yw pobl ifanc sydd wedi cofrestru gyda phob maes gwasanaeth.

**Deilliannau meddal**

Mae'r rhain yn anodd eu mesur. Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid effaith ar fywydau pobl ifanc, weithiau mae hyn ar unwaith, weithiau gall fod mewn 12 mis neu hyd yn oed yn fwy. Mae'n dibynnu ar daith y person ifanc unigol. Mae 11 cwnselydd ar gael drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid. Mae timau o fewn ysgolion uwchradd a chynradd. Mae gan hyn adnoddau da.

**Darpariaeth i ieuenctid mewn ardaloedd gwledig**

Cefnogaeth i glybiau ieuenctid os ydynt yn gofyn am gefnogaeth gan roi hyfforddiant, arweiniad ac adnoddau.

**Busnes craidd statudol y Gwasanaeth Ieuenctid**

Y busnes craidd yw sicrhau fod pobl ifanc yn ymwneud â gweithgaredd ystyrlon yn eu hamser rhydd, rhywle y gall pobl ifanc fynd i gael cyngor, gwybodaeth, help a chefnogaeth. Gyda gwerth ychwanegol fel rhaglenni ysgol, mae'r rhain yn rhaglenni a gyllidir gan grant sy'n ychwanegu at yr hyn y mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ei ddarparu ar gyfer pobl ifanc.

**Casgliad y Pwyllgor:**

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb fel sy'n dilyn:

- Roedd y Pwyllgor Dethol wedi derbyn adroddiad diddorol a defnyddiol.
- Dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys data sylweddol ynghyd â'r astudiaethau achos.
- Yn y dyfodol dylid cael Adroddiad Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy wrth ochr yr adroddiad Cynnig Integredig i Ieuenctid er mwyn rhoi trosolwg cyflawn.
- Annog mwy o gyfathrebu gyda'r cynghorau tref a chymuned yn Sir Fynwy.

**5. Blaengynllun Gwaith Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc.**

Derbyniwyd blaenraglen waith y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc. Nodwyd y pwyntiau dilynol:

- Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ei bod hi, Is-gadeirydd y Pwyllgor Dethol, Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad, y Rheolwr Cyllid, Pennaeth Llywodraethiant, Ymgysylltu a Gwella a'r Aelod Cabinet wedi cwrdd gyda phennaeth Ysgol Tŷ Mounton parthed pryderon a godwyd yn flaenorol. Roedd y

Pennaeth wedi mynegi pryderon am y toriad yng nghyllideb yr ysgol. Bu'n gyfarfod cadarnhaol iawn a dywedodd y Pennaeth ei bod yn derbyn llawer iawn o gefnogaeth gan yr awdurdod lleol. Cafodd mesurau eu rhoi ar waith sy'n helpu'r ysgol i symud ymlaen mewn ffordd gadarnhaol. Trefnwyd cyllideb yr ysgol i weddu'n well i anghenion yr ysgol. Fodd bynnag, nodwyd fod adolygiad o'r ysgol yn dal i fynd rhagddo a phan gaiff ei orffen, cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Dethol ar gyfer craffu.

- Dywedodd y Rheolwr Cyllid wrth y Pwyllgor Dethol fod cynllun adfer Ysgol Tŷ Mounton am bedair blynedd ac na fydd yr ysgol yn cynyddu’r diffyg eleni. Mae'r Pennaeth yn gweithio gyda swyddogion perthnasol y Cyngor Sir ar nifer o faterion yn yr ysgol. Rhagwelir y bydd yr ysgol yn gwneud arbediad o £50,000 ar gyfer cyllideb 2018/19. Deuir â'r cynllun adfer yn ôl i'r Pwyllgor Dethol pan fydd wedi ei orffen.

- Dywedodd Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad bod swyddogion yn dal i fod yn ymchwilio rhai meysydd yng nghyswllt yr adolygiad ehangach. Felly, cyflwynir gwybodaeth am yr adolygiad i'r Pwyllgor Dethol maes o law.

- Cyflwynir Adroddiad Prif Swyddog y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc i gyfarfod arbennig ar y cyd o'r Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a Phwyllgor Dethol Oedolion ar 22 Tachwedd 2016, i ddechrau am 10.00am.

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant - Estynnwyd gwahoddiad i aelodau'r Pwyllgor Dethol i fynychu ymweliad i'r Gwasanaethau Carchar gydag Aelodau Pwyllgor Dethol Oedolion cyn derbyn yr eitem yma yn y cyd-gyfarfod arbennig o'r Pwyllgorau Dethol ar 22 Tachwedd 2016.

- Cyfarfod Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc - 8 Rhagfyr 2016. Ychydig o eitemau sydd ar yr agenda ar hyn o bryd. Bydd y Rheolwr Craffu yn ymchwilio os byddai'n ymarferol symud rhai o'r eitemau agenda o gyfarfod Pwyllgor Dethol 3 Tachwedd 2016 i gyfarfod mis Rhagfyr.

- Mae'n annhebyg y bydd angen trefnu mwy o gyfarfodydd arbennig eleni.

- Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ei bod hi a'r Pennaeth Llywodraethiant, Ymgysylltu a Gwella wedi derbyn cyflwyniad ar y newid mewn cymwysterau. Felly, ystyriwyd fod y Pwyllgor Dethol angen arbenigydd ar y mater i ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor Dethol yn y dyfodol i roi gwybodaeth i Aelodau ar y newidiadau arfaethedig.

**6. <u>Busnes Cyngor a Chabinet – Blaengynllun.</u>**

Penderfynwyd derbyn Blaenraglen Waith Busnes y Cyngor a'r Cabinet a nodi ei gynnwys.

Wrth wneud hynny, nodwyd fod rhaglen waith y Cabinet ar gyfer Mawrth 2016 yn cyfeirio at y cynnig i gau Ysgol Gynradd Deri View. Dylid diwygio'r geiriad fel sy'n dilyn:

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 6 Hydref, 2016 am 10.00**

- Adolygu'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Deri View.

7. **Nodi dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf – 3 Tachwedd 2016 am 10.00am.**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 3 Tachwedd 2016 am 10.00am.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11:34**